# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y Ionawr 2017
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr:- Dylan Edwards (Cadeirydd), Ann Tudor, Meic Francis, Caredig Jones, Dewi Rattray, Ada Evans, Rowland Jones, Richard Davies, John Davies & Meirion Davies.**

**YMDDIHEURIADAU:**

**ABSENOLDEBAU:**

Dachraeodd y cyfarfod am 8.00 o'r gloch. Chroesawyd yr aelodau i gyfarfod Miss Ionawr gan y Cadeirydd Dylan Edwards. Darllenwyd cyfnodion Miss Rhagfyr gan y clerc. Fe wnaeth y Cyng.Meic Francis cynig eu bod yn gywir ac fe eiliwyd gan y Cyng.Caredig Jones.

**15/956 - MATERION YN CODI**

1. Nid oes ymateb wedi eu derbyn eto wrth y Cyngor Sir ynglŷn â diffyg golau tu allan i'r Canolfan Hen Ysgol a hefyd wrth ymyl y Falcon. Yn anffodus, derbyniwyd llythyr arall wrth aelod o'r cyhoedd, gan eu bont wedi syrthio yn y tywyllwch. Ofynnwyd i'r clerc anfon copi o'r llythyr yma ymlaen at y Cyngor Sir, a chais gryf am fwy/well olau yn y lleoliad.
2. Mae'r twll ar y ffordd Traswcoed ger Llidiardau wedi eu llanw.

**15/957- LLYTHYRON**

1. Ebost oddiwrth DASH, ynglyn a Phrosiect DASH yn y Gymuned. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu yn ôl atynt am fwy o fanylion am y phrosiect.
2. Holiadur oddiwrth Gwasanaeth Tan ac Achub i'w cwblhau a dychwelyd.
3. Dyddiadau diweddaraf am gymorthfeydd Mark Williams AS/MP
3. Nifer o negeseuon e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru.

**15/958- ARIANNOL**

1. Cyflog y Clerc ar gyfer Miss Ionawr, sef £113.27. Cynigwyd i'w dalu gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Richard Davies.
2. Nid yw Dan Owen wedi derbyn cheque ar gyfer anfoneb torri'r fynwent. Anfonnwyd hyn I Dan yn y post ar ddechrau fis Rhagfyr. Gofynnwyd i'r clerc rhoi 'stop' ar y siec gwreiddiol ac ail ysgrifennu un arall. Cyfanswm y siec yma fydd £1135.00 (unwaith eto). Cynigwyd i'w talu gan y Cyng. John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor. Rhoedd y Cynhorwyr i gyd yn gytun. Ofynnwyd i'r clerc anfon llythyr o ddiolch at Dan.

**15/959 - CYNLLUNIO**

Nid oes unrhyw gais wedi eu derbyn.

**15/960 - UNRHYW FATER ARALL**

1. Diweddariad oddiwrth y Cyng.Ann Tudor fod gwaith ar ffens yr hen reilffordd rhwng Trawscoed a'r Station Dwr wrth Pantmawr, maent eu cwblhau cyn diwedd Miss Mawrth.
2. Rhoddwyd diolch i'r Cyng. Caredig Jones am y rhodd o'r Goeden Nadolig i'r gymuned.
3. Codwyd sylw can y Cyng. John Davies fod y parcio yn Pentrellyn yn gwaethygu unwaith eto. Fydd rhaid cadw golwg ar hyn.
4. Codwyd y pwnc ar 'Enw i'r Stad o Dai' sydd ar fun cael eu hadeiladu wrth ymyl 'Y Gorlan'. Roedd y cynghorwyr i gyd yn gytûn, mi fydd yn aros fel 'Y Gorlan'. Ond, ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at yr adran Cynllunio i eglurio rhai cwestiynau sydd gan y Cyngor ar amodau adeiladu a.y.b.

Orffenwyd y gyfarfod am 9 o'r gloch.